Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion y Panel Ymchwiliad Craffu - Asedau Cymunedol

Cyfarfod aml-leoliad – Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams

Dydd Llun, 17 Mehefin 2024 am 4.30pm

Yn bresennol: Y Cynghorydd S J Rice (Cadeirydd) fu'n llywyddu

Y Cynghorydd (wyr)	**Y Cynghorydd (wyr)**	**Y Cynghorydd (wyr)**
C A Holley	A J Jeffery	S M Jones

Hefyd yn bresennol
Mr Rooke a Mr Daly, Parc Coed Gwilym
Mr Hopkins, Clwb Pêl-droed Pen-lan
Mr Winspear, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe

Swyddogion

Geoff Bacon	Pennaeth Gwasanaethau Eiddo
Tracey McNulty	Pennaeth y Gwasanaethau Diwylliannol
Mark Wade	Cyfarwyddwr Lleoedd
David Turner	Rheolwr Asedau, Gwasanaethau Eiddo
Michelle Roberts	Swyddog Craffu

Ymddiheuriadau am absenoldeb
Y Cynghorydd/wyr: E W Fitzgerald, M W Locke a C L Philpott

---

25 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Dim

26 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

27 **Cofnodion**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai yn gofnod cywir.

28 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

29 **Trosglwyddo Asedau Cymunedol - Cyfarfod bord gron gyda rhanddeiliaid**

Cysylltwyd â nifer o randdeiliaid a oedd wedi bod drwy'r broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol a chawsant eu gwahodd naill ai i fynd i'r cyfarfod neu i gyflwyno cyflwyniad ysgrifenedig. Clywodd y Panel oddi wrth Parc Coed Gwilym, Clwb Pêl-droed Pen-lan, Parc Underhill, Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe.

Bydd manylion y drafodaeth ac unrhyw faterion a godwyd yn rhan o'r nodiadau manwl a fydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad canfyddiadau y bydd aelodau'r Panel yn eu hystyried tua diwedd yr ymchwiliad.

30 **Ymchwiliad i Gynllun Prosiect**

Nodwyd y cynllun prosiect. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 23 Gorffennaf 2024 am 4.30pm a bydd yn edrych ar agweddau cyfreithiol ar drosglwyddo asedau cymunedol ac adroddiad canfyddiadau'r ymchwiliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.45pm